# Uned 2: Lefel A Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## *2.2.2 Cydnabod gofal o ansawdd uchel*

Mae **fframwaith safonau** yn cael ei bennu gan y gyfraith er mwyn cynnal ansawdd uchel wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.

(i) Safonau Iechyd a Gofal 2015

(ii) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

(iii) Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir

Mae'r fframweithiau hyn yn adlewyrchu nodau **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** ac yn ceisio gwella cysondeb ansawdd drwy roi pobl wrth wraidd gwasanaethau o ansawdd uchel ac ymateb yn gyflym i fethiannau darparwyr drwy gyflwyno modelau a chysyniadau newydd.

**Sut y caiff safonau gofal o ansawdd uchel eu cyflawni ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant?**

**Yr ethos sy'n sail i ofal o ansawdd uchel yw bod gan bawb yn y GIG a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ran i'w chwarae wrth ddarparu gofal person-ganolog diogel ac effeithiol. Mae hyn yn cynnwys unigolion a sefydliadau.**

### Pwy sy'n rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau a sefydliadau?

**Gofal Iechyd**

Mae **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** yn arolygu darparwyr gofal iechyd y GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn amrywiaeth o safonau a chanllawiau er mwyn tynnu sylw at feysydd y mae angen eu gwella. Mae'n annibynnol ac yn anelu at wella ansawdd drwy rannu arferion da a chymryd camau lle na chaiff safonau eu cyrraedd.

**Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant**

Mae **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn rheoleiddio, yn arolygu ac yn gweithredu er mwyn gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.

Caiff y sectorau canlynol eu harolygu: Iechyd Galwedigaethol, Gweithwyr Cymdeithasol, Nyrsys, Athrawon ac Arbenigwyr Gofal Dydd.

Mae rheolwyr ardal AGC yn gweithio gydag awdurdodau lleol gan anelu at ganolbwyntio ar brofiadau pobl a deall effaith gwasanaethau ar eu bywydau er mwyn gwella ansawdd.

**Addysg**

Mae **Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (Estyn)** yn arolygu ysgolion, meithrinfeydd a sefydliadau hyfforddi er mwyn gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'n anelu at helpu darparwyr drwy ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu sy'n rhoi dysgwyr wrth wraidd popeth. Mae'n darparu atebolrwydd i'r cyhoedd o ran safonau hyfforddiant ac addysg, yn annog cyfrifoldeb, blaengaredd ac arloesedd.




### Cynrychiolwyr os na chaiff safonau eu cyrraedd ac os bydd ansawdd yn y fantol:

**Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC):** cyrff annibynnol a sefydlwyd gan y gyfraith ac a gaiff eu rheoleiddio gan Fwrdd y Cynghorau Cymuned. Mae gan bob bwrdd iechyd lleol Gyngor Iechyd Cymuned. Maen nhw'n monitro ac yn arolygu'r holl wasanaethau sylfaenol fel meddygon teulu, fferyllwyr, optegwyr, ysbytai (gan gynnwys ysbytai preifat) a chartrefi gofal. Mae CICau yn gweithredu fel llais ar ran y cyhoedd er mwyn awgrymu gwelliannau ansawdd a gallant weithredu fel eiriolwyr.

**Cyrff Comisiynwyr** – Y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd y Gymraeg. Yn hyrwyddo hawliau plant, pobl hŷn a phobl y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Yn hysbysu pam bod hawliau yn bwysig ac yn ystyried penderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus sy'n effeithio ar hawliau.

**Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus:** yn meddu ar hawliau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus, darparwyr gofal annibynnol a chyrff llywodraeth leol sydd wedi mynd yn groes i'w cod ymddygiad.

**Grwpiau Cleifion:** grwpiau o gleifion sy'n rhoi adborth ar amrywiaeth eang o ofal, triniaethau a meysydd iechyd a gaiff ei fwydo i mewn i'r CICau.

**1000 o Fywydau (Gwelliant Cymru):** llais gwelliant ym maes gofal iechyd yng Nghymru, gan roi cymorth drwy roi cyngor, cyrsiau, hyfforddiant a rhannu syniadau.

**Swyddfa Archwilio Cymru:** yn gweithio fel rhan o Goncordat Cymru rhwng cyrff, gan arolygu, rheoleiddio ac archwilio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r sefydliad hwn hefyd yn archwilio cyfrifon ac yn cynnal arolygon gwerth am arian.